

Cynllun Strategol CGA 2024–27

Ein gweledigaeth

Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, dibynadwy sy'n gweithio er budd y cyhoedd i gynnal proffesiynoldeb a gwella safonau yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

Ein nodau

Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru.

Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon ac eraill sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru.

Diogelu ym mudd dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid, a'r cyhoedd, a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg.

Ein swyddogaethau

- Sefydlu a chynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg.
- Cynnal Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.
- Ymchwilio a gwrando honiadau allai gwestiynu priodoldeb i ymarfer ymarferwyr cofrestredig.
- Achredu a monitro AGA athrawon ysgol.
- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill.
- Monitro sefydlu a gwrando apeliadau sefydlu.
- Hyrwyddo gyrfaedd yn y gweithlu addysg.
- Ymgymryd â gwaith penodol pan wahoddir gan Lywodraeth Cymru.

Ein hamcanion strategol

1. Bod yn rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol, effeithiol, sy'n gweithio er budd y cyhoedd ac sy'n meithrin hyder yn y gweithlu addysg.
2. Cefnogi proffesiynoldeb a dysgu, a hyrwyddo gyrfaedd o fewn y gweithlu addysg.
3. Ceisio llywio, llunio, a dylanwadu ar bolisi addysgol yng Nghymru er budd y gweithlu addysg.
4. Bod yn sefydliad gwydn, galluog, a chynaliadwy yn ariannol, sy'n cynnig gwerth am arian i gofrestreion.